

Polisi Rheoli Gwastraff

Corff Cymeradwyo	<i>Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd</i>
Dyddiad Cymeradwyo	<i>Chwefror 2017</i>
Perchennog y Polisi / Canllawiau	<i>Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd</i>
Cyswllt y Polisi / Canllawiau	<i>Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd</i> hasstaff@aber.ac.uk neu 01970 62(2073)
Statws y Polisi / Canllawiau	<i>Wedi'i ddiwygio</i>
Cyfeirnod	<i>P014</i>
Fersiwn	<i>V2.0</i>
Dyddiad Adolygu	<i>Bob 3 blynedd</i>



1. Cwmpas:


- 1.1. Mae'r Polisi hwn yn amlinellu'r ffrydiau gwastraff a grëwyd gan weithgareddau'r Brifysgol; mae gan ffrydiau gwastraff penodol bolisiâu ac/neu weithdrefnau ategol.
- 1.2. Mae'r Polisi hwn yn rhan o System Reoli Amgylcheddol y Brifysgol (EMS) ac mae'n sail i'r Polisi Amgylcheddol.
- 1.3. Mae'n sicrhau yr ymdrinnir â'r holl wastraff yn unol â gofynion deddfwriaethol ac yn ôl yr opsiynau amgylcheddol ymarferol gorau.
- 1.4. Nod y Polisi hwn yw lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol ochr yn ochr â chynhyrchu, storio, cludo a gwaredu gwastraff Prifysgol Aberystwyth.
- 1.5. Mae'r Polisi hwn yn amlygu Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chyfrifoldeb (sef y pedwar 'R' yn Saesneg: 'Reduce', 'Reuse', 'Recycle' a 'Responsibility')
- 1.6. Mae o fewn Dyletswydd Gofal y Brifysgol i fod yn gyfrifol yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd am gynhyrchu, storio, cludo a gwaredu gwastraff a'i beryglon iechyd a diogelwch cysylltiedig.
- 1.7. Mae'n sicrhau bod y bobl sy'n trin, cynhyrchu, storio, cludo ac/neu waredu gwastraff y Brifysgol, yn gofalu rhag anaf neu risg o niwed iddynt hwy eu hunain neu i eraill, gan gynnwys y cyhoedd.
- 1.8. Rhaid i unrhyw un sy'n cynhyrchu, storio, cario, prosesu neu waredu gwastraff sicrhau Dyletswydd Gofal trwy gydol pob cam gweithredu.

2. Amcanion:

- 2.1. Cael gwared ar wastraff heb beryglu dŵr, aer, pridd, planhigion neu anifeiliaid, nac achosi niwsans trwy sŵn neu arogleuon, neu effeithio'n andwyol ar gefn gwlad neu leoedd o ddiddordeb arbennig (yn unol â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff, 2008)
- 2.2. Cefnogi'r ymgyrch tuag at 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi' Cymru yn unol â Strategaeth Gwastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru
- 2.3. Lleihau'r cynhyrchu ar wastraff yn y lle cyntaf.

3. Cefndir:

- 3.1. Mae'r hierarchaeth gwastraff (Ffigwr 1) wedi'i throsi i gyfraith y Deyrnas Unedig drwy Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr), 2011:




Ffigwr 1: Hierarchaeth Gwastraff

- 3.2. Wrth ystyried effeithiau'r camau yn yr hierarchaeth wastraff, dylid ystyried y canlynol:
- 3.2.1. Egwyddorion cyffredinol diogelu'r amgylchedd o ran rhagofalon a chynaliadwyedd
 - 3.2.2. Dichonoldeb technegol a hyfywedd economaidd
 - 3.2.3. Diogelu adnoddau
 - 3.2.4. Effeithiau cyffredinol ar yr amgylchedd, iechyd dynol, yn economaidd ac yn gymdeithasol
- 3.3. Dylid cadw at ganllawiau a deddfwriaeth nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi hwn yn ychwanegol at ofynion y ddogfen hon.
- 3.4. Mae'r Polisi hwn yn amlinellu'r weithdrefn gyffredinol i'w dilyn ar gyfer pob llif gwastraff. Pan fydd llif gwastraff yn gofyn am weithdrefn fwy penodol, cofnodir hynny yn ychwanegol at y Polisi hwn.


4. Deddfwriaeth:

- 4.1. Mae deddfwriaeth allweddol yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
- 4.1.1. Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi), 2011
 - 4.1.2. Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr), 2012
 - 4.1.3. Rheoliadau Cerbydau ar Ddiwedd eu Hoes, 2003
 - 4.1.4. Deddf yr Amgylchedd, 1995
 - 4.1.5. Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru), 2009
 - 4.1.6. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr), 2010
 - 4.1.7. Deddf Diogelu'r Amgylchedd, 1990
 - 4.1.8. Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal), 1991
 - 4.1.9. Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE, 2008
 - 4.1.10. Cyfarwyddeb Gwastraff Peryglus, 2002
 - 4.1.11. Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr), 2005
 - 4.1.12. Rheoliadau Trethi Tirlenwi (Diwygio), 2014
 - 4.1.13. Cyfarwyddeb Tirlenwi, 2007

- 
- 4.1.14. Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru), 2011
 - 4.1.15. Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr), 2011
 - 4.1.16. Mesur Gwastraff (Cymru), 2010
 - 4.1.17. Rheoliadau Gwastraff Cyfarpar Trydanol ac Electronig, 2013
 - 4.1.18. Deddf Lleihau Gwastraff, 1998

5. Diffiniadau:


- 5.1. Gwastraff – *“Unrhyw sylwedd neu wrthrych y mae’r deiliad yn ei daflu neu’n bwriadu ei daflu neu fod gofyn iddo ei daflu. Ar ôl i sylwedd neu wrthrych ddod yn wastraff, bydd yn parhau i fod yn wastraff nes iddo gael ei adfer yn llawn ac nad yw bellach yn fgygythiad posibl i’r amgylchedd nac i iechyd pobl ac wedi hynny nid oes angen iddo mwyach fod yn destun rheolaethau o dan y Gyfarwyddeb.”* (Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE, 2008)
- 5.2. Gwastraff Peryglus – *“Gwastraff a ystyrir yn beryglus pan fydd yn cynnwys sylwedd neu nodweddion a allai ei wneud yn niweidiol i iechyd pobl neu’r amgylchedd.”* (Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr), 2005)
- 5.3. Gwastraff Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid – *“Cyrff cyfan anifeiliaid, rhannau o anifeiliaid, neu gynhyrchion sy’n tarddu o anifeiliaid nad ydynt wedi’u bwriadu i’w bwyta gan bobl”* (Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi), 2011)
- 5.4. Sylweddau Ymbelydrol – *“Unrhyw ddeunydd ymbelydrol sgrap, dros ben, neu wedi’i ddifetha neu unrhyw wastraff arall sydd wedi’i halogi â gwastraff neu ddeunydd ymbelydrol.”* (Deddf Sylweddau Ymbelydrol, 1960)
- 5.5. Gwastraff Trydanol – *“Cyfarpar gwastraff sy’n ddibynnol ar gerrynt trydan neu faes electromagnetig er mwyn gweithio’n iawn a chyfarpar ar gyfer cynhyrchu, trosglwyddo a mesur cerrynt a maes fel y rhain ac sydd wedi’u cynllunio i’w defnyddio â chyfraddiad foltedd nad yw’n fwy na 1,000 folt ar gyfer cerrynt eiledol a 1,500 folt ar gyfer cerrynt union.”* (Rheoliadau Gwastraff Cyfarpar Trydanol ac Electronig, 2013)
- 5.6. Gwastraff y gellir ei gompostio – *“Triniaeth fiolegol i wastraff pan gaiff y gwastraff ei ddadelfennu a’i sefydlogi trwy weithgarwch microbaidd proses erobig”* (Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011)
- 5.7. Cerbydau ar ddiwedd eu hoes (ELVs) – *“cerbyd sy’n wastraff yn ôl ystyr Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE, 2008”* (Rheoliadau Cerbydau ar Ddiwedd eu Hoes, 2003)
- 5.8. Cynhyrchydd – *“Unrhyw un y mae ei weithgareddau yn cynhyrchu gwastraff (cynhyrchydd gwastraff gwreiddiol) neu unrhyw un sy’n gwneud gwaith cyn-brosesu, cymysgu neu weithrediadau eraill sy’n arwain at newid natur neu gyfansoddiad y gwastraff hwn”* (Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE, 2008)
- 5.9. System Reoli Amgylcheddol - *“Mae system reoli yn disgrifio’r set o weithdrefnau y mae angen i’r sefydliad eu dilyn er mwyn cyflawni ei amcanion”* (www.ISO.org). Yn yr achos hwn, nod y System a ddefnyddir gan Brifysgol Aberystwyth (EcoCampus) yw ardystio’r Brifysgol o dan ISO 14001.



5.10. Dim gwastraff i dirlenwi – *“Mae Dim Gwastraff yn nod moesegol, economaidd, effeithlon a gweledigaethol, sy’n llywio pobl i newid eu ffordd o fyw a’u harferion er mwyn efelychu cylchoedd naturiol cynaliadwy, lle bydd yr holl ddeunyddiau a waredir wedi’u dylunio i droi’n adnoddau i’w defnyddio gan eraill. Mae Dim Gwastraff yn golygu dylunio a rheoli cynnyrch a phrosesau er mwyn osgoi a dileu, mewn modd systematig, dwysedd a gwenwyndra gwastraff a deunyddiau, cadw ac adfer yr holl adnoddau, a pheidio â’u llosgi neu eu claddu. Bydd gweithredu Dim Gwastraff yn fodd i ddileu’r holl ddeunydd a gaiff ei ollwng i’r tir, i’r dŵr neu i’r aer sydd yn bygwth iechyd y blaned, iechyd dyn neu iechyd anifeiliaid a phlanhigion.”* (Cynghrair Ryngwladol Dim Gwastraff)

6. Cyfrifoldebau:

- 6.1. Mae unrhyw wastraff a waredir yn ddarostyngedig i Reoliadau Dyletswydd Gofal. O dan y Rheoliadau hyn, cynhyrchydd y gwastraff sydd â chyfrifoldeb am ei waredu’n ddiogel.
- 6.2. Yr Adrannau Gwasanaeth a’r Cyfadrannau sydd yn gyfrifol am roi’r Polisi hwn ar waith ac am greu, os yw’n berthnasol, gamau gweithredu ac/neu greu unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy’n ymwneud â ffrydiau gwastraff penodol.
- 6.3. Cyfrifoldeb yr Adrannau Gwasanaeth a’r Cyfadrannau yw cynorthwyo i gyflawni’r targedau sydd yn y Strategaeth Gynaliadwyedd, sy’n ymwneud â rheoli gwastraff.
- 6.4. Rhaid cynnwys elfennau o’r polisi hwn yn llawlyfrau’r Adran Wasanaeth a’r Cyfadran, lle bo hynny’n berthnasol.
- 6.5. Y Grŵp Gweithredu Cynaliadwyedd sy’n gyfrifol am adolygu’r Polisi hwn yn flynyddol.
- 6.6. Dylai’r rheolwr cynllunio adeiladu, rheolwr contract neu enwebai adrannol, lle bo hynny’n briodol, archwilio’r llwybr cludo a gwaredu bob blwyddyn i sicrhau bod Dyletswydd Gofal Prifysgol Aberystwyth yn cael ei chyflawni i waredu cynhyrchion yn derfynol. Dylai hyn hefyd fod yn rhan o ddadansoddiadau cyn tendr.
 - 6.6.1. Os daw unrhyw un i wybod am fusnes arall sy’n cam-drin gwastraff a gynhyrchir gan weithgareddau Prifysgol Aberystwyth, dylid cau pob gweithredu yn y dyfodol a rhoi gwybod am y manylion ar unwaith i’r Tîm Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd. Cyflwynir adroddiad dilynol ar y gweithgareddau i’r Grŵp Gweithredu Cynaliadwyedd cyn ailgychwyn unrhyw weithgareddau dan gontract.
- 6.7. Y Tîm Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd sy’n gyfrifol am y cais blynyddol a’r cyllid ar gyfer trwyddedau safle Cynhyrchydd Gwastraff Peryglus lle bo angen.
- 6.8. Rhaid i unrhyw Gyfadran / Adran sy’n creu neu’n bwriadu creu gwastraff ymbelydrol hysbysu’r Tîm Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd a Goruchwyliwr arweiniol Amddiffyn rhag Ymbelydredd i drefnu Trwydded Sylweddau Ymbelydrol ac unrhyw ofynion eraill (yn unol â Pholisi Ymbelydredd Prifysgol Aberystwyth) cyn caffael deunyddiau o’r fath. Rhaid i’r Tîm Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd, mewn ymgynghoriad â’r Cyfadrannau/Adrannau sy’n cynhyrchu, sicrhau bod y trwyddedau’n parhau’n ddilys trwy gydol cyfnod y prosiect/gweithgaredd. Y Tîm Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd sydd yn gyfrifol am agweddau ariannol y trwyddedau hyn.

- 
- 6.8.1 Bob blwyddyn rhaid darparu cofnodion i'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ynghylch faint o wastraff ymbelydrol sy'n cael ei waredu (erbyn diwedd mis Chwefror bob blwyddyn) er mwyn cael data ar gyfer ffurflen Rhestr Llygredd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae angen yr adroddiad hwn gan fod gweithgareddau Prifysgol Aberystwyth ar hyn o bryd yn dod o dan drwydded ymbelydredd.
- 6.8.2 Bydd y Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn goruchwyllo ceisiadau am unrhyw drwyddedau Ymbelydredd i'r Brifysgol ac yn cyfleu unrhyw newidiadau i'r telerau ac amodau i'r unigolion perthnasol.
- 6.9 Rhaid i'r Adran Gwasanaeth/Cyfadrannau sy'n cynhyrchu ddiffinio, nodi a storio gwastraff yn briodol yn ogystal ag atal mynediad heb awdurdod ac unrhyw ollwng neu ryddhau damweiniol.
- 6.10 Rhaid i unrhyw un sy'n dyst i ddigwyddiad yn ymwneud â gwastraff, neu sy'n rhan o ddigwyddiad o fath, gan gynnwys digwyddiadau amgylcheddol a digwyddiadau a fu bron â digwydd, a hynny mewn unrhyw amgylchiadau, roi gwybod am y digwyddiad i'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd trwy'r sianelau priodol (ac i'r gwasanaethau brys os oes angen).
- 6.11 Dylid clirio unrhyw ddeunydd sydd wedi gollwng/tywallt ar unwaith gan y person priodol neu drefnu iddynt gael eu clirio, a hynny drwy ddefnyddio dulliau ac/neu offer addas; Rhaid ailgyflenwi cyfleusterau megis offer glanhau gollyngiadau ar ôl eu defnyddio os oes angen.
- 6.11.1 Yr Adran/Grŵp sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r gwastraff sy'n gyfrifol am gaffael a gosod offer glanhau gollyngiadau lle bo angen.
- 6.12 Bydd yr Adran Ystadau, Cyfleusterau a Preswylfeydd yn goruchwyllo gwastraff o brosiectau adeiladu, adnewyddu, cynnal a chadw a dymchwel, bach a mawr.
- 6.13 Dylid mesur tunelli gwastraff o bob ffrwd yn flynyddol a hysbysu Rheolwr Cofnodion Rheoli Ystadau (EMR).
- 6.14 Rhaid ymgynghori â'r Swyddog Caffael ar gyfer caffael/contractau gwaredu gwastraff lle gellid cael enillion ariannol.
- 6.15 Rhaid i unrhyw berson sy'n gwaredu gwastraff ddefnyddio cwmnïau a gaffaelir trwy Swyddog Caffael y Brifysgol a rhaid iddynt ddefnyddio cyflenwyr cymeradwy. Os nad yw'r deliwr/delwyr priodol wedi'u rhestru, rhaid ymgynghori â'r Adran Gyllid i sicrhau cydymffurfio cyfreithiol wrth gaffael cwmnïau newydd.
- 6.15.1 Cyfrifoldeb y sawl sy'n dymuno defnyddio cwmni allanol i gludo, newid cyflwr neu waredu unrhyw wastraff a gynhyrchir gan weithgareddau Prifysgol Aberystwyth yw sicrhau y cedwir at ganllawiau a fframweithiau ariannol.
- 6.16 Dylai pawb hysbysu Desg Gymorth Gwasanaethau'r Campws (est. 2999) os sylwir ar blâu neu broblemau mewn manau storio.
- 6.17 Rhaid i bob Adran Gwasanaeth a Cyfadrannau hysbysu'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd am unrhyw fathau o wastraff a gynhyrchir sydd angen trwydded neu eithriad. Rhaid sicrhau cael pob* hawlen, eithriad a thrwydded amgylcheddol briodol a'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd i gyfleu'r telerau.
- 6.17.1 Mae'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn cynnal adolygiad o drwyddedau ac eithriadau bob tair blynedd.



- 6.17.2 Mae manylion trwyddedau ac eithriadau ar gael i staff naill ai trwy'r dudalen we ac/neu dudalen SharePoint y System Reoli Amgylcheddol.
- 6.17.3 Yr adrannau unigol sy'n gyfrifol am geisiadau Trwyddedau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid ar gyfer eu gweithgareddau ac am reoli'r trwyddedau hynny.

7. Storio:

* Ac eithrio trwyddedau sgil-gynhyrchion a chludo anifeiliaid.

7.1 Rhaid i fannau storio fod wedi'u:

- 7.1.1 diogelu
- 7.1.2 bwndelu os oes angen
- 7.1.3 labelu'n glir, gan gynnwys pictogramau CLP i nodi perygl
- 7.1.4 gorchuddio lle bo angen er mwyn osgoi gollwng/dianc i'r awyr
 - 7.1.4.1 Dylai gorchuddion fod yn ddiiddos/dal dŵr i atal dŵr ffo a thrwytholch

7.2 Rhaid i fannau storio gwastraff peryglus fod â:

- 7.2.1 cyfarwyddiadau ysgrifenedig wedi'u harddangos ar gyfer storio a gwaredu
- 7.2.2 cofnodion wedi'u cadw am y sylwedd a'i leoliad
- 7.2.3 asesiadau risg cysylltiedig
- 7.2.4 rhaid eu gwirio'n rheolaidd rhag gollyngiadau, dirywiad a risgiau posibl eraill.

7.3 Rhaid dosbarthu a gwahanu gwastraff yn unol â'r Gyfarwyddeb Gwastraff i sicrhau bod pob categori gwastraff sy'n cael ei gludo gan Brifysgol Aberystwyth neu ar ei rhan yn bodloni meini prawf derbyn gwastraff gan y safle/broses awdurdodedig sy'n derbyn y gwastraff.

7.4 Rhaid cadw gwastraff cyfrinachol mewn sachau glas, wedi'u marcio yn 'wastraff cyfrinachol' a'u cadw mewn uned/ardal y gellir ei gloi hyd nes eu gwaredu.


7.5 Dylid rhoi label ar yr holl wastraff peryglus sy'n nodi dyddiad ei storio, ei gynnwys a'i ffynhonnell. Dylai'r person priodol gadw cofnod o storio gwastraff peryglus nes bod y gwaredu wedi'i gwblhau a bod nodyn trosglwyddo/cludo yn cael ei ddarparu a'i ffeilio.

8. Cludo:

Rhaid i bob cludwr gwastraff dan gontract sy'n cludo gwastraff ar ran y Brifysgol feddu ar Drwydded Cludwyr Gwastraff ddilys a gallu ei dangos ar gais.

Mae gan Brifysgol Aberystwyth drwydded cludo gwastraff (haen uchaf) er mwyn cludo gwastraff (gan gynnwys gwastraff adeiladu) rhwng safleoedd. Y Tîm Gwasanaethau Eiddo sy'n cael y drwydded hon, yn talu amdani, yn cyfathrebu amdani ac yn ei rheoli gan ei hadnewyddu bob 3 blynedd.

9. Llwybrau Gwaredu Penodol:


- 
- 9.1 Rhaid osgoi gwaredu i safleoedd tirlenwi a defnyddio hwnnw fel yr opsiwn olaf ar ôl ystyried yr holl ddulliau gwaredu eraill.
 - 9.2 Rhaid rhestru dodrefn sy'n eiddo i Brifysgol Aberystwyth sy'n ddiogel ac yn addas at y diben ar WARPit fel y pwynt galw cyntaf, cyn ystyried opsiynau gwaredu.
 - 9.3 Mae'r Adran Ystadau, Cyfleusterau a Preswylfeydd yn cynnig gwasanaeth symud ac adleoli dodrefn ar ran Prifysgol Aberystwyth; mae hyn hefyd yn cynnwys cael gwared ar ddodrefn diangen. Pan fo dodrefn mewn cyflwr da ac y gellir ei ddefnyddio, mae angen i'r adran wneud pob ymdrech i ddod o hyd i ddefnydd arall iddo cyn cysylltu â'r Adran Ystadau, Cyfleusterau a Preswylfeydd – gellid gwneud hyn drwy ddefnyddio WARPit. Os deuir o hyd i ddefnydd arall ar gyfer yr eitem, gall yr Adran Ystadau, Cyfleusterau a Preswylfeydd gynorthwyo i'w symud i leoliad arall. Os bydd yn dal angen i'r adran gael gwared ar yr eitemau, dylai'r adran sicrhau bod man storio ar gael i gadw'r dodrefn. Efallai y bydd angen awdurdodiad gwaredu asedau a chod cyllideb.
 - 9.4 Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno caffael dodrefn newydd, yn gyntaf edrych ar yr opsiynau ailddefnyddio sydd ar blatfform WARPit ac/neu roi cyfiawnhad am y stoc newydd i'r Adran Gaffael.
 - 9.5 Rhaid i unrhyw fusnes a gaffaelir i ddelio â gwastraff a gynhyrchir gan weithgareddau Prifysgol Aberystwyth fod â thrwydded briodol i wneud hynny a gallu dangos y drwydded honno ar gais.
 - 9.6 Rhaid i'r Swyddfa Gyllid roi cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw waredu gwastraff lle gellid cael enillion ariannol (er enghraifft metel sgrap).
 - 9.6.1 Yn ôl y gyfraith, rhaid i unrhyw fusnes a gaffaelir gan Brifysgol Aberystwyth i ddelio â metel sgrap a gynhyrchir gan ei gweithgareddau feddu ar Drwydded Metel Sgrap ddilys a gallu ei dangos ar gais.
 - 9.7 Y cynhyrchydd gwastraff, lle bo hynny'n bosibl, ddylai drin gwastraff peryglus â thechnolegau priodol (e.e. awtoclaf), cyn ei waredu i symud neu leihau nodwedddion peryglus.
 - 9.8 Gellir gweld manylion llwybrau gwaredu ffrydiau gwastraff penodol ar dudalen we lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
 - 9.9 Rhaid cwblhau nodiadau trosglwyddo/cludo gwastraff a'u lanlwytho ar adran 'Gwastraff' tudalen SharePoint y System Reoli Amgylcheddol.
 - 9.10 Rhaid cadw nodyn trosglwyddo/cludo gwastraff, neu gopi, am o leiaf 2 flynedd.
 - 9.11 Rhaid cael gwared ar unrhyw wastraff yn unol â holl reolau a rheoliadau eraill Prifysgol Aberystwyth.

10. Trwyddedau sydd gan Brifysgol Aberystwyth ar hyn o bryd (ym mis Ionawr 2017):

- 10.1 Trwydded sgil-gynhyrchion anifeiliaid
- 10.2 Cofrestriadau adeiladau sydd â gwastraff peryglu
- 10.3 Eithriadau gwastraff
- 10.4 Trwydded cludo gwastraff (haen uchaf)
- 10.5 Trwyddedau ymbelydredd ar raglen nad yw'n dod i ben gyda Chyfoeth Naturiol Cymru

11. Dogfennaeth Ategol:

- 11.1 <http://www.hse.gov.uk/waste/>
- 11.2 <https://www.gov.uk/government/policies/waste-and-recycling>

- 
- 11.3 <https://www.gov.uk/government/publications/waste-classification-technical-guidance>
- 11.4 <https://www.gov.uk/government/publications/2010-to-2015-government-policy-waste-and-recycling/2010-to-2015-government-policy-waste-and-recycling>